# Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

## Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19
## FI0084/A

Lleoliad: Yr Wyddgrug, Sir y Fflint
Dyddiad y Digwyddiad: Hydref 2023

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

## Taflen Rheoli Dogfen

| Awdur y Ddogfen | Elain Jones MEng (Anrh) GMICE |
|---|---|
| Gwiriwyd gan | Aled Williams BSc (Anrh) MCIWEM C.WEM |
| Cymeradwywyd gan | Mike Wellington BEng (Anrh) MSc CEng CEnv FICE FCIWEM C.WEM IMaPS MAPM |

### Hanes Adolygu

| Dyddiad | Rhif Fersiwn | Crynodeb o'r Newidiadau |
|---|---|---|
| 15/11/24 | Cyhoeddiad Cyntaf | Amherthnasol |
| 10/07/2025 | Ail Rifyn | Diwygiwyd i nodi sylwadau'r Awdurdodau Rheoli Risg |
| 01/09/2025 | Fersiwn Derfynol | Golygiadau terfynol gan yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol |
| | | |
| | | |
| | | |

© 2018-19 Cyngor Sir y Fflint / Tîm Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Cedwir pob hawl. Mae hawlfraint y ddogfen hon ac unrhyw ran ohoni'n eiddo i Gyngor Sir y Fflint, Swyddfeydd y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NF (y 'Perchennog') ac ni ddylid ei defnyddio, ei gwerthu, ei throsglwyddo, ei chopïo na'i hatgynhyrchu'n llwyr neu'n rhannol ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw gyfrwng i neb, oni wneir hynny'n unol â thelerau cytundeb y Perchennog neu fel arall heb ganiatâd ysgrifenedig y Perchennog o flaen llaw.

**Cynnwys**

Crynodeb Gweithredol

1.0 Cyflwyniad

2.0 Crynodeb o Storm Babet a'i Heffaith

3.0 Braslun o Ardal yr Astudiaeth

4.0 Lleoliadau'r Llifogydd, Disgrifiadau a Phrosesau Gorlifo

5.0 Cofrestr Cyfathrebu â Phobl Berthnasol

6.0 Casgliadau

7.0 Argymhellion

**Atodiadau**

Atodiad A Cofnod Ffotograffig

Atodiad B Cynllun Lleoliad a Llun o'r Awyr

Atodiad C Ardaloedd Llifogydd a Adroddwyd

Atodiad D Cynllun LiDAR

Atodiad E Cynlluniau Carthffosydd Dŵr Cymru

Atodiad F Mapiau Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru

Atodiad G Cofnodion Arolwg Daearegol Prydain

**Ffigurau**

Ffigur 1 - Glawiad Dyddiol Cronnus 18-21 Hydref 2023 yn ôl y Swyddfa Dywydd
Ffigur 2 - Mesurydd Glaw yr Wyddgrug Cyfoeth Naturiol Cymru - Glaw Dyddiol rhwng 18 a 21 Hydref
Ffigur 3 - Glaw fesul awr rhwng 18 a 22 Hydref
Ffigur 4 - Cynllun o'r Ardaloedd a gafodd lifogydd
Ffigur 5 – Map Cwrs Dŵr Ardal Fir Grove, Park Avenue a Ffordd Gwernaffield
Mae'n cynnwys Data OS © Hawlfraint y Goron (2024)
Ffigur 6 – Dalgylch Fir Grove, Park Avenue a Ffordd Gwernaffield sy'n Cyfrannu at y Cwrs Dŵr (ffynhonnell: SCALGO)
Ffigur 7 – Map Cwrs Dŵr Ardal Maes y March, Ash Grove, Clayton Road, Nant Garmon a'r Coetir. Mae'n cynnwys Data OS © Hawlfraint y Goron (2024)
Ffigur 8 – Dalgylch sy'n Cyfrannu at Gwrs Dŵr Maes y March, Ash Grove, Clayton Road, Nant Garmon a'r Coetir (ffynhonnell: SCALGO)
Ffigur 9 – Map Cwrs Dŵr Ardal Stryd Newydd a Ffordd Rhuthun. Mae'n cynnwys Data OS © Hawlfraint y Goron (2024)
Ffigur 10 – Dalgylch sy'n Cyfrannu at Gyrsiau Dŵr Stryd Newydd a Ffordd Rhuthun (ffynhonnell: SCALGO)
Ffigur 11 – Map Cwrs Dŵr Ardal Cae Bracty. Mae'n cynnwys Data OS © Hawlfraint y Goron (2024)
Ffigur 12 – Dalgylch sy'n Cyfrannu at Gwrs Dŵr Cae Bracty (ffynhonnell: SCALGO)
Ffigur 13 – Map Cwrs Dŵr Ardal Brook Street a Stryd Wrecsam. Mae'n cynnwys Data OS © Hawlfraint y Goron (2024)
Ffigur 14 – Dalgylch sy'n Cyfrannu at Gyrsiau Dŵr Brook Street a Stryd Wrecsam (ffynhonnell: SCALGO)
Ffigur 15 – Map Cwrs Dŵr Ardal Conway Street a Cunliffe Street. Mae'n cynnwys Data OS © Hawlfraint y Goron (2024)
Ffigur 16 – Dalgylch sy'n Cyfrannu at Gyrsiau Dŵr Conway Street a Cunliffe Street (ffynhonnell: SCALGO)
Ffigur 17 – Map Cwrs Dŵr Ardal Lôn yr Orsaf. Mae'n cynnwys Data OS © Hawlfraint y Goron (2024)
Ffigur 18 – Dalgylch sy'n Cyfrannu at Gwrs Dŵr Lôn yr Orsaf (ffynhonnell: SCALGO)
Ffigur 19 - Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio – Afonydd, Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach Cyfoeth Naturiol Cymru
Ffigur 20 - Map Risg Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru o Afonydd, Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach yn Fir Grove, Park Avenue a Ffordd Gwernaffield
Ffigur 21 - Map Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Cynllunio - Afonydd, Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach ym Maes y March, Ash Grove, Clayton Road, Nant Garmon a'r Coetir
Ffigur 22 - Map Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Cynllunio – Afonydd, Môr, Dŵr Wyneb a Map Cyrsiau Dŵr Bach yn Stryd Newydd a Ffordd Rhuthun
Ffigur 23 - Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio – Afonydd, Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghae Bracty
Ffigur 24 - Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio – Afonydd, Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyd Brook Street a Stryd Wrecsam.
Ffigur 25 - Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio – Afonydd, Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyd Conway Street a Cunliffe Street
Ffigur 26 - Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio – Afonydd, Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyd Lôn yr Orsaf
Ffigur 27 - Fir Grove, Park Avenue a Ffordd Gwernaffield
Ffigur 28 - Maes y March ac Ash Grove, Clayton Road, Nant Garmon a'r Coetir
Ffigur 29 - Stryd Newydd a Ffordd Rhuthun
Ffigur 30 - Cae Bracty

Ffigur 31 - Brook Street a Stryd Wrecsam
Ffigur 32 - Conway Street a Cunliffe Street
Ffigur 33 - Lôn yr Orsaf

**Tablau**

Tabl 1 - Argymhellion i fynd i'r afael â llifogydd
Tabl 2 – Crynodeb o'r Ymgysylltu Cymunedol a Wnaed yn yr Wyddgrug
Tabl 3 – Crynodeb o'r Llifogydd yn yr Wyddgrug yn Ystod Storm Babet
Tabl 4 – Cofrestr Cyfathrebu â Phobl Berthnasol
Tabl 5 – Argymhellion i Fynd i'r Afael â Llifogydd

# Crynodeb Gweithredol

Wedi llifogydd mewn ardaloedd helaeth o Sir y Fflint ym mis Hydref 2023, lluniwyd Adroddiadau Ymchwiliadau Llifogydd dan Adran 19 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Bu i'r Wyddgrug wynebu llifogydd mewn nifer o leoliadau. Mae dau Adroddiad Adran 19 ar wahân wedi'u cynhyrchu ar gyfer yr Wyddgrug. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â llifogydd ar draws canol yr Wyddgrug a oedd yn rhannu'r un ffynhonnell llifogydd.

Mae'r lleoliadau a ystyrir gan yr adroddiad hwn yn cynnwys:-

- Fir Grove, Park Avenue,
- Gwernaffield Road,
- Maes y March, Ash Grove,
- Clayton Road, Nant Garmon,
- Y Coetir, Stryd Newydd,
- Ffordd Rhuthun,
- Cae Bracty,
- Brook Street,
- Stryd Wrecsam,
- Gas Lane,
- Conway Street,
- Cunliffe Street; a
- Lôn yr Orsaf

Mae Adroddiad Adran 19 ar wahân wedi'i baratoi i ystyried ardaloedd eraill yn yr Wyddgrug â gwahanol ffynonellau llifogydd gan gynnwys:-

- Meadowside,
- Queens Park,
- Holland Cottages; ac
- Alyn Meadows.

Lluniwyd yr adroddiad hwn er mwyn bodloni gofynion Adran 19 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Dan Adran 19 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae'n rhaid i'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (Cyngor Sir y Fflint), o gael gwybod am lifogydd yn ei ardal, ac i'r graddau y mae'n barnu hynny'n angenrheidiol neu'n briodol, gynnal ymchwiliad, llunio Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd a'i gyhoeddi.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol am reoli'r perygl o lifogydd lleol sy'n deillio o ddŵr wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin fel nentydd a ffosydd (gan gynnwys llynnoedd a phyllau).

Mae Adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn datgan:

*"Wrth ddod yn ymwybodol o lifogydd yn ei ardal, mae'n rhaid i awdurdod llifogydd lleol arweiniol, i'r graddau a bennir yn briodol ganddo, ymchwilio i ganfod –*

*(a) Pa awdurdodau rheoli risg sydd â swyddogaethau rheoli risg llifogydd perthnasol, ac*

*(b) A yw pob un o'r awdurdodau rheoli risg hynny wedi arfer y swyddogaethau hynny mewn ymateb i'r llifogydd neu'n bwriadu gwneud"*

Yr awdurdodau rheoli perygl llifogydd yn Sir y Fflint yw:

- Cyngor Sir y Fflint
- Adran yr Amgylchedd Sir y Fflint
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Dŵr Cymru

Yr Awdurdod Rheoli Perygl Llifogydd perthnasol i'r digwyddiad hwn yw Cyngor Sir y Fflint gan fod y llifogydd wedi deillio'n bennaf o 'gwrs dŵr cyffredin'. Oherwydd y bu llifogydd y tu mewn i dŷ preswyl, mae'n rhaid ymchwilio i'r digwyddiad a llunio adroddiad yn unol â Strategaeth Leol y Cyngor ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd:[1]

Ym mis Hydref 2023, daeth Storm Babet â chyfnodau o law trwm i rannau helaeth o'r Deyrnas Unedig. Yn ôl y Swyddfa Dywydd, rhwng 18 a 21 Hydref oedd y tridiau gwlypaf yng Nghymru a Lloegr ers 1891.

Bu cynrychiolwyr Waterco Ltd, ar ran Cyngor Sir y Fflint, yn ymgysylltu â'r gymuned a chyfathrebu â'r budd-ddeiliaid perthnasol er mwyn deall yr hyn a ddigwyddodd yn ystod llifogydd mis Hydref 2023. Mae'r Adroddiad hwn yn manylu ynghylch y llifogydd hynny.

Ar draws ardaloedd yr Wyddgrug a ystyriwyd gan yr Adroddiad Ymchwiliad i Lifogydd S19 hwn, yr oedd 48 o adroddiadau am lifogydd mewnol. Cyrsiau dŵr sydd wedi'u cysylltu'n hydrolig yn gorlenwi yw achos y rhan fwyaf o lifogydd mewnol. Mae adroddiadau eraill o lifogydd mewnol yn gysylltiedig â systemau draenio, gan gynnwys gylïau priffyrdd yn gorlenwi.

Mae Tabl 1 yn nodi'r camau yr argymhellir sy'n ofynnol er mwyn lleihau'r llifogydd a'r budd-ddeiliad y mae'n ofynnol iddo gyflawni pob un o'r camau hynny.

[1] https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Flooding-and-Drainage/Flintshire-Local-Flood-Risk-Management-Strategy.pdf.

**Tabl 1 - Argymhellion i fynd i'r afael â llifogydd**

| Cyf | Budd-ddeiliad | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 01 | Perchennog Afonydd | Archwilio mewnfa'r geuffos bresennol yn Highfield Villas yn rheolaidd a chael gwared ar y malurion yn ôl yr angen. |
| 02 | Awdurdod Priffyrdd CSFf | Ar ôl y digwyddiad, dylid cynnal arolwg cyflwr Teledu Cylch Caeëdig o gydlifiad ceuffos Brook Street i sicrhau nad oes rhwystrau nac unrhyw siltio sylweddol yn y geuffos. Cymryd camau adferol yn ôl yr angen. |
| 03 | Awdurdod Priffyrdd CSFf | Parhau i gynnal a chadw asedau draenio priffyrdd mewn ardaloedd risg uchel. Er enghraifft, ar Brook Street a Ffordd Rhuthun. |
| 04 | Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol CSFf | Cyfathrebu â chymunedau lleol i godi ymwybyddiaeth o ddulliau i hybu gwytnwch eiddo unigol rhag llifogydd i helpu i liniaru ar y risg o lifogydd. |
| 05 | Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol CSFf | Ymchwilio i weithredu rheolaeth llifogydd naturiol i fyny'r afon o'r ardaloedd yr effeithir arnynt gan lifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin / dŵr wyneb, sef mewnfeydd ceuffosydd Fir Grove a Highfield Villas. |
| 06 | Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol CSFf | Adolygu cyflwr y cyrsiau dŵr cyffredin a hysbysu perchnogion glannau'r afon os canfyddir unrhyw broblemau. Bod y Cyngor yn arfer ei ddyletswyddau a phwerau caniatáol dan y Ddeddf Draenio Tir a'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr fel bod dŵr yn llifo drwy fewndyllau ceuffosydd, cyrsiau dŵr a bod ceuffosydd yn cael eu cynnal a'u cadw i gludo'r llif fel y bwriedir. |
| 07 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Sicrhau yr archwilir Prif Afonydd yn rheolaidd yn ôl lefel y risg a lle bo'n briodol a bod modd cyfiawnhau hynny, bod Awdurdod Rheoli Risg perthnasol a/neu Berchennog Glannau'r Afon yn dogfennu trefn cynnal a chadw a'i gweithredu. |
| 08 | Dŵr Cymru | Adolygu cwynion gan gwsmeriaid ac ymchwilio i rannau cysylltiedig y system garthffosydd gyhoeddus er mwyn cael gwared ar unrhyw rwystr / malurion sylweddol yn dilyn llifogydd mis Hydref 2023. |
| 09 | Preswylwyr / Perchnogion Eiddo | Cofrestru am ddim â System Rhybuddion Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac ystyried rhoi dulliau ar waith i hybu gwytnwch eiddo unigol rhag llifogydd. Gallai'r rhain gynnwys gosod falfiau un ffordd er mwyn atal dŵr llifogydd rhag mynd i mewn i systemau draenio preifat a gosod rhwystrau llifogydd neu lifddorau. |

# 1.0 Cyflwyniad

1.1 Ers cyflwyno Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Cyngor Sir y Fflint (y Cyngor) yw'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (yr Awdurdod) dynodedig.

1.2 Dan Adran 19 y Ddeddf honno, mae'n rhaid i'r Cyngor, fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, o gael gwybod am lifogydd yn ei ardal, ac i'r graddau y mae'n barnu hynny'n angenrheidiol neu'n briodol, gynnal ymchwiliad a llunio adroddiad.

1.3 Pan mae Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn cynnal ymchwiliad, mae'n rhaid iddo gyhoeddi adroddiad a hysbysu'r awdurdodau rheoli risg perthnasol.

1.4 Mae Waterco wedi'i gomisiynu gan Gyngor Sir y Fflint i gynnal Adroddiad Ymchwiliad i Lifogydd mewn cysylltiad â llifogydd yn ardaloedd Fir Grove, Park Avenue, Gwernaffield Road, Maes y March, Ash Grove, Clayton Road, Nant Garmon, Y Coetir, Stryd Newydd, Ffordd Rhuthun, Cae Bracty, Brook Street, Stryd Wrecsam, Gas Lane, Conway Street, Cunliffe Street, a Lôn yr Orsaf yn yr Wyddgrug yn ystod Storm Babet a ddigwyddodd ym mis Hydref 2023. Achosodd Storm Babet lifogydd y tu mewn a'r tu allan i dai yn yr Wyddgrug. Mae'r llifogydd i bob ardal a ystyrir yn Adroddiad Adran 19 wedi'i gysylltu'n hydrolig. Mae adroddiad Adran 19 ar wahân ar gael ar gyfer ardaloedd Meadowside, Queens Park, Holland Cottages ac Alyn Meadows yn yr Wyddgrug. Nid yw'r ardaloedd hyn wedi'u cysylltu'n hydrolig â'r llifogydd a brofwyd yng nghanol yr Wyddgrug.

1.5 Diben Adroddiad Ymchwiliad i Lifogydd Adran 19 yw nodi achos y llifogydd mewnol i eiddo yn ardaloedd Fir Grove, Park Avenue, Gwernaffield Road, Maes y March, Ash Grove, Clayton Road, Nant Garmon, Y Coetir, Stryd Newydd, Ffordd Rhuthun, Cae Bracty, Brook Street, Stryd Wrecsam, Gas Lane, Conway Street, Cunliffe Street, a Lôn yr Orsaf yn yr Wyddgrug yn ystod llifogydd mis Hydref 2023. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi gorolwg ar y prosesau gorlifo, yn nodi'r Awdurdodau Rheoli Risg a budd-ddeiliaid sy'n berthnasol ac yn rhoi rhestr o argymhellion.


1.6 Mae'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn a'r sylwadau ac argymhellion a wneir yn seiliedig ar asesu'r wybodaeth sydd ar gael.

1.7 Mae'r wybodaeth, y safbwyntiau a'r casgliadau'n seiliedig, yn rhannol, ar y wybodaeth y mae eraill wedi ei darparu i Waterco. Mae Waterco wedi derbyn gyda phob ewyllys da fod y wybodaeth honno'n gywir. Nid yw Waterco yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw gasgliadau, tybiaethau na chamau a gymerir yn sgil unrhyw wybodaeth anghywir y mae eraill wedi'i darparu i Waterco.

# 2.0 Crynodeb o Storm Babet a'i Heffaith

## Cyd-destun Cenedlaethol

2.1 Daeth Storm Babet â chyfnodau o law trwm i rannau helaeth o'r Deyrnas Unedig ac yn ôl y Swyddfa Dywydd, rhain oedd y tridiau gwlypaf yn olynol yng Nghymru a Lloegr ers 1891[2]. Fel y dangosir yn Ffigur 1, cafwyd mwy na 50mm o law mewn llawer o rannau o'r DU, a chofnodwyd 75-100mm o law ar draws rhannau o ogledd Cymru. Cafodd nifer o ardaloedd ar draws y Deyrnas Unedig fwy na 100% o'r glawiad cyfartalog ar gyfer mis Hydref.




**Ffigur 1 - Glawiad Dyddiol Cronnus 18-21 Hydref 2023 yn ôl y Swyddfa Dywydd**

2.2 Roedd Storm Babet yn rhan o gyfnod ehangach o law trwm ar draws y sir. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi bod y cyfnod 9 mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024 oedd yr ail wlypaf o unrhyw gyfnod 9 mis a gofnodwyd yng ngogledd Cymru, a'r cyfnod 9 mis gwlypaf a ddaeth i ben ym mis Mawrth. Y cyfnodau estynedig o law, yn hytrach na'r dwysedd oedd yn nodweddu stormydd dros y cyfnod hwn (fel Storm Babet). Rhwng mis Medi 2023 a mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru 194 Rhybudd Llifogydd a 3 Rhybudd Llifogydd Difrifol.

## Cyd-destun Rhanbarthol


2.3 Yn wahanol i'r rhan fwyaf o stormydd, ni wnaeth Storm Babet basio'n gyflym. Roedd hyn yn caniatáu i nifer o ffryntiau ychwanegu mwy o law dros gyfnod estynedig. Roedd y gyfradd anwedd-drydarthu ym mis Hydref yn isel a chafwyd cyfnodau aml o law trwy gydol y mis. Cafwyd lefelau uchel o law ar 13 / 14 Hydref (27mm yn yr Wyddgrug) a olygodd fod priddoedd yn agos at fod yn ddirlawn.

---

[2] Adroddiad Storm Babet https://www.metoffice.gov.uk/binaries/content/assets/metofficegovuk/pdf/weather/learn-about/uk-past-events/interesting/2023/2023_08_storm_babet.pdf

2.4 Mae cofnodion glaw wedi dod i law o fesurydd glaw Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr Wyddgrug[3].


2.5 Mae Ffigur 2 yn dangos y glaw yn ystod y diwrnodau a oedd yn arwain at y llifogydd ar 20 Hydref. Cafwyd glaw yn Sir y Fflint ddeuddydd cyn 20 Hydref, 15.2mm o law ar 18 Hydref ac 11.8mm ar 19 Hydref. Ar 20 Hydref, cofnododd mesurydd glaw yr Wyddgrug 61.8mm o law.




**Ffigur 2 - Mesurydd Glaw yr Wyddgrug Cyfoeth Naturiol Cymru - Glaw Dyddiol rhwng 18 a 21 Hydref**

2.6 Mae Ffigur 3 yn dangos y bu cyfnod o law dwys ddydd Mercher 18 Hydref, a ddechreuodd am 19:00 gan gyrraedd ei anterth rhwng 21:00-22:00, a 5mm o law fesul awr. Cafwyd rhywfaint o law ychwanegol ddydd Iau 19 Hydref, gan gyrraedd ei anterth ar tua 1mm fesul awr. Bu'n glawio'n gyson ar 20 Hydref a chafwyd 4.2mm mewn awr yn ei anterth.

[3] https://rivers-and-seas.naturalresources.wales/Station/1011?parameterType=2




**Ffigur 3 - Glaw fesul awr rhwng 18 a 22 Hydref**

2.7 Ar sail dadansoddiad o'r Llawlyfr Amcangyfrif Llifogydd, awgrymir bod cyfanswm y glawiad o 61.8mm mewn 24 awr (ar 20 Hydref) fel y cofnodwyd gan fesurydd glaw CNC yn yr Wyddgrug, yn hafal i gyfnod dychwelyd o tua 1 mewn 20 o flynyddoedd.

2.8 Mae'r 73.6mm o law mewn 48 awr rhwng 19 a 20 Hydref (a gofnodwyd gan fesurydd glaw CNC yn yr Wyddgrug) yn hafal i gyfnod dychwelyd o tua 1 mewn 23 o flynyddoedd. Mae'r 88.8mm o law mewn 72 awr rhwng 18 a 20 Hydref yn hafal i gyfnod dychwelyd o tua 1 mewn 39 o flynyddoedd.

2.9 O ganlyniad i lefelau uchel o law trwy gydol mis Hydref, mae'n debygol y byddai diffyg lle i storio dŵr mewn pridd, a allai fod wedi arwain at fwy o ddŵr ffo yn cronni a'i fod yn llifo'n gynt, gan arwain at lifogydd.

**Cyd-destun Lleol**

2.10 Ymgysylltodd Waterco â'r Gymuned yn yr Wyddgrug ar 29 Awst 2024 a 2 Medi 2024. Diben hynny oedd casglu gwybodaeth am y tai a gafodd lifogydd a'r systemau / ffynhonnell/ffynonellau llifogydd. Yn ogystal â siarad â phreswylwyr, anfonwyd holiadur drwy'r post i geisio barn pobl eto. Mae Tabl 2 yn rhoi crynodeb o nifer yr ymatebion a gafwyd.

**Tabl 2 - Crynodeb o’r Ymarfer Ymgysylltu Cymunedol a gynhaliwyd yn yr Wyddgrug**

| Lleoliad | Ymatebion a gafwyd ar lafar (eiddo) | Nifer yr ymatebion drwy’r post / e-bost |
|---|---|---|
| Fir Grove, Park Avenue a Ffordd Gwernaffield | 14 | 7 |
| Maes y March, Ash Grove, Clayton Road, Nant Garmon a’r Coetir | 14 | 11 |
| Stryd Newydd a Ffordd Rhuthun | 6 | 5 |
| Cae Bracty | 0 | 0 |
| Brook Street a Stryd Wrecsam | 9 | 5 |
| Gas Lane | 2 | 0 |
| Conway Street a Cunliffe Street | 7 | 3 |
| Y Gilfach, Glynteg a Highfield Villas | 4 | 1 |
| Lôn yr Orsaf | 6 | 6 |

2.11 Yn ogystal â’r digwyddiad i ymgysylltu â’r gymuned, ymgynghorwyd â budd-ddeiliaid perthnasol i gael unrhyw wybodaeth am lifogydd yn yr Wyddgrug:

- **Cyfoeth Naturiol Cymru** – rhoddwyd gwybodaeth am alwadau a gafwyd yn ystod Storm Babet; cofnod o eiddo y mae’n hysbys iddynt gael llifogydd; a gohebiaeth â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- **CSFf fel yr Awdurdod Priffyrdd** – darparwyd cofnod galwadau yn dangos lle’r oedd aelodau’r cyhoedd wedi rhoi gwybod am lifogydd.
- **Dŵr Cymru** – cynhaliwyd cyfarfod ar ôl Storm Babet gyda CSFf a Waterco i rannu manylion am berfformiad asedau a chofnodion llifogydd yn ystod Storm Babet.

2.12 Mae Tabl 3 yn rhoi crynodeb o’r mannau lle cafwyd llifogydd a’r effaith a gafodd hynny, ar sail ymgysylltu â’r gymuned ac ymgynghori â budd-ddeiliaid.

2.13 Mae cofnod ffotograffig yn dangos y llifogydd yn ystod ac yn dilyn Storm Babet ar gyfer ardaloedd Fir Grove, Park Avenue, Ffordd Gwernaffield, Maes y March, Ash Grove, Clayton Road, Nant Garmon, Y Coetir, Stryd Newydd a Ffordd Rhuthun, Cae Bracty, Brook Street, Stryd Wrecsam, Gas Lane, Conway Street, Cunliffe Street, a Lôn yr Orsaf yn yr Wyddgrug wedi'i gynnwys yn Atodiad A.


**Tabl 3 - Crynodeb o Lifogydd yn yr Wyddgrug yn ystod Storm Babet**

| Lleoliad | Llifogydd Mewnol | Effaith |
|---|---|---|
| Fir Grove, Park Avenue a Ffordd Gwernaffield | 6 | Llifogydd y tu mewn i 6 o dai, cadarnhawyd llifogydd ar ddreif / mewn gardd o leiaf 12 o dai eraill. |
| Maes y March, Ash Grove, Clayton Road, Nant Garmon a'r Coetir | 10 | Llifogydd y tu mewn i 10 o dai, cadarnhawyd llifogydd ar ddreif / mewn gardd o leiaf 8 o dai eraill. |
| Stryd Newydd a Ffordd Rhuthun | 4 | Llifogydd y tu mewn i 4 o dai, cadarnhawyd llifogydd ar ddreif / mewn gardd o leiaf 7 o dai eraill. |
| Cae Bracty | 13 | Llifogydd mewn 13 eiddo. |
| Brook Street a Stryd Wrecsam | 6 | Llifogydd y tu mewn i 6 o dai, cadarnhawyd llifogydd ar ddreif / mewn gardd o leiaf 4 o dai eraill. |
| Conway Street a Cunliffe Street | 4 | Llifogydd y tu mewn i 4 o dai, cadarnhawyd llifogydd ar ddreif / mewn gardd o leiaf 5 o dai eraill. |
| Lôn yr Orsaf | 5 | Llifogydd y tu mewn i 5 o dai, cadarnhawyd llifogydd ar ddreif / mewn gardd o leiaf 2 o dai eraill. |
| **Cyfanswm Llifogydd Mewnol a Adroddwyd** | **48** | **Nifer yr achosion o lifogydd mewnol ar sail ymgysylltu â'r ymuned ac ymgynghori â budd-ddeiliaid. Gallai llifogydd fod wedi digwydd mewn tai eraill hefyd heb i neb roi gwybod i Gyngor Sir y Fflint.** |

# 3.0 Braslun o Ardal yr Astudiaeth

## Lleoliad

3.1 Cofnodwyd llifogydd yn yr Wyddgrug yn gyffredinol mewn lleoliadau ger cyrsiau dŵr cyffredin sy'n llifo trwy ardal drefol yr Wyddgrug ac yn ffurfio llednentydd Afon Alun. Mae Ffigur 4 yn dangos lleoliadau'r eiddo a gafodd lifogydd yn yr Wyddgrug, a adroddwyd gan Gyngor Sir y Fflint, budd-ddeiliaid, a thrigolion. Mae Ffigur 4 hefyd yn Atodiad B.




**Ffigur 4 - Cynllun o'r ardaloedd a gafodd lifogydd**
Yn cynnwys Data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2024)


**Daeareg**

3.2 Yn ôl map ar-lein Arolwg Daearegol Prydain[4] (graddfa 1:50,000), mae'r Wyddgrug yn gorwedd yn bennaf ar ddyddodion rhewlifol arwynebol sy'n gyffredinol yn cynnwys tywod, graean a llifwaddodion sy'n gyffredinol yn cynnwys clai, llaid, tywod a graean. Mae'r creigwely'n gymysgedd o dywodfaen, cerrig llaid, cerrig silt a chlymfaen. Gellir dod o hyd i Gofnodion Arolwg Daearyddol Prydain ar gyfer yr ardal yn Atodiad G.

**Sefyllfa Hydrolegol**

**Fir Grove, Park Avenue a Ffordd Gwernaffield**

3.3 Fel y dangosir yn Ffigur 5, mae cwrs dŵr dan geuffos heb ei enwi yn llifo i'r dwyrain o dan Fir Grove a Park Avenue. Mae'r geuffos yn gollwng i gwrs dŵr ar ymyl ddwyreiniol y meysydd chwarae i'r dwyrain o Park Avenue. Mae'r cwrs dŵr heb ei enwi yn llifo i'r de ac yn mynd dan geuffos ym mhen deheuol y meysydd chwarae. Mae lleoliadau'r cyrsiau dŵr sy'n mynd dan geuffos o gofnodion carthffosiaeth Dŵr Cymru a rhai bras yn unig ydynt.




**Ffigur 5 – Map Cwrs Dŵr Ardal Fir Grove, Park Avenue a Ffordd Gwernaffield**
Mae'n cynnwys Data OS © Hawlfraint y Goron (2024)

[4] Arolwg Daearegol Prydain - https://mapapps2.bgs.ac.uk/geoindex/home.html


3.4 Mae dalgylch y cwrs dŵr dienw yn Fir Grove, a ddangosir yn Ffigur 5 uchod, yn ymestyn dros tua 0.49 cilometr sgwâr. Mae Ffigur 6 yn dangos y dalgylch bras wedi'i gynhyrchu gan feddalwedd Scalgo. Brasamcan o'r dalgylch yn unig yw hwn ac nid yw nodweddion fel draeniau priffyrdd a systemau draenio preifat a allai ddargyfeirio llif y dŵr wedi'u cynrychioli.




**Ffigur 6 – Dalgylch Fir Grove, Park Avenue a Ffordd Gwernaffield sy'n Cyfrannu at y Cwrs Dŵr**
(ffynhonnell: SCALGO)

### Maes y March, Ash Grove, Clayton Road, Nant Garmon a’r Coetir


3.5 Fel y dangosir yn Ffigur 7, mae'r cwrs dŵr heb ei enwi a nodir yn Ffigur 5 yn mynd dan geuffos ym mhen deheuol y meysydd chwarae ac yn parhau i'r de. Mae'r geuffos wedi'i lleoli i'r dwyrain o Faes y March ac mae'n llifo i'r de o dan Ffordd Clayton. Mae 2 gwrs dŵr dan geuffosydd yn ymuno i'r de o Nant Garmon, cyn parhau i'r de.




**Ffigur 7 – Map Cwrs Dŵr Ardal Maes y March, Ash Grove, Clayton Road, Nant Garmon a’r Coetir**

Mae’n cynnwys Data OS © Hawlfraint y Goron (2024)

3.6 Mae dalgylch y cwrs dŵr heb ei enwi ger Clayton Road yn ymestyn dros tua 4.3 cilomedr sgwâr. Mae Ffigur 8 yn dangos y dalgylch bras wedi'i gynhyrchu gan feddalwedd Scalgo.




**Ffigur 8 – Dalgylch sy'n Cyfrannu at Gwrs Dŵr Maes y March, Ash Grove, Clayton Road, Nant Garmon a'r Coetir**
(ffynhonnell: SCALGO)


**Stryd Newydd a Ffordd Rhuthun**

3.7 Fel y dangosir yn Ffigur 9, mae'r cwrs dŵr dan geuffos sy'n llifo i'r de heibio i Clayton Road yn parhau o dan Faes Bodlonfa (i'r dwyrain o'r maes chwarae a hamdden). Mae'r cwrs dŵr dan geuffos yn croesi o dan Stryd Newydd (A5119) yng Nghyfeirnod Grid: 323545, 363715. Mae cwrs dŵr heb ei enwi ar wahân wedi'i leoli tua 100 metr i'r de o Ffordd Rhuthun ac mae'n llifo i'r dwyrain.




**Ffigur 9– Map Cwrs Dŵr Ardal Stryd Newydd a Ffordd Rhuthun**
Mae'n cynnwys Data OS © Hawlfraint y Goron (2024)

3.8 Mae dalgylch y cwrs dŵr heb ei enwi ger Stryd Newydd yn ymestyn dros tua 6.7 cilomedr sgwâr. Mae Ffigur 10 yn dangos y dalgylch bras a gynhyrchwyd  meddalwedd Scalgo.





**Ffigur 10 – Dalgylch sy'n Cyfrannu at Gyrsiau Dŵr Stryd Newydd a Ffordd Rhuthun**

(ffynhonnell: SCALGO)

### Ardal Cae Bracty

3.9 Fel y dangosir yn Ffigur 11, mae'r cwrs dŵr heb ei enwi sy'n mynd i geuffos o dan New Street yn parhau tua'r de-ddwyrain, gan groesi o dan Gae Bracty a pharhau o dan Stryd y Nant. Mae'r cwrs dŵr heb ei enwi i'r de o Ffordd y Parc yn ymuno â'r cwrs dŵr uchod i'r de-ddwyrain o Gae Bracty.




**Ffigur 11 – Map Cwrs Dŵr Ardal Cae Bracty**
Mae'n cynnwys Data OS © Hawlfraint y Goron (2024)


3.10 Mae dalgylch y cwrs dŵr i lawr yr afon o Gae Bracty yn ymestyn dros tua 6.73 cilometr sgwâr. Mae Ffigur 12 yn dangos y dalgylch bras wedi'i gynhyrchu gan feddalwedd Scalgo.




**Ffigur12 – Dalgylch sy'n Cyfrannu at Gwrs Dŵr Cae Bracty**
(ffynhonnell: SCALGO)

### Brook Street a Stryd Wrecsam

3.11 Fel y dangosir yn Ffigur 13, mae'r cwrs dŵr heb ei enwi dan geuffos yn parhau tua'r de-ddwyrain o Gae Bracty ac yn llifo dan Stryd y Nant / Brook Street gan barhau o dan Stryd Wrecsam (B5444).




**Ffigur 13– Map Cwrs Dŵr Ardal Brook Street a Stryd Wrecsam**
Mae'n cynnwys Data OS © Hawlfraint y Goron (2024)


3.12 Mae dalgylch y cwrs dŵr heb ei enwi ar Stryd Wrecsam yn ymestyn dros tua 6.88 cilomedr sgwâr. Mae Ffigur 14 yn dangos y dalgylch bras wedi'i gynhyrchu gan feddalwedd Scalgo.




**Ffigur 14 – Dalgylch sy'n Cyfrannu at Gyrsiau Dŵr Brook Street a Stryd Wrecsam**
(ffynhonnell: SCALGO)

### Ardal Conway Street a Cunliffe Street

3.13 Fel y dangosir yn Ffigur 15, mae cwrs dŵr dan geuffos yn llifo tua'r gogledd-ddwyrain trwy dir Ysgol Maes Garmon / Ysgol Alun. Mae'r cwrs dŵr drwy geuffos sy'n croesi tir yr ysgol yn ymuno â'r cwrs dŵr heb ei enwi a soniwyd amdano uchod o dan Gas Lane.




**Ffigur 15– Map Cwrs Dŵr Ardal Conway Street a Cunliffe Street**
Mae'n cynnwys Data OS © Hawlfraint y Goron (2024)


3.14 Mae dalgylch y cwrs dŵr drwy geuffos sy'n croesi tir yr ysgol yn ymestyn dros tua 1.6 cilometr sgwâr. Mae Ffigur 16 yn dangos y dalgylch bras wedi'i gynhyrchu gan feddalwedd Scalgo.




**Ffigur 16 – Dalgylch sy'n Cyfrannu at Gyrsiau Dŵr Conway Street a Cunliffe Street**
(ffynhonnell: SCALGO)

### Ardal Lôn yr Orsaf

3.15 Fel y dangosir yn Ffigur 17, mae cwrs dŵr drwy geuffos heb ei enwi yn llifo i'r de o dan Lôn yr Orsaf ac yn ymuno â'r cwrs dŵr drwy geuffos a soniwyd amdano eisoes (sy’n mynd dan geuffos yn Gas Lane) ger cyffordd Gas Lane a Llys Derwen.




**Ffigur 17 – Map Cwrs Dŵr Ardal Lôn yr Orsaf**
Mae’n cynnwys Data OS © Hawlfraint y Goron (2024)

3.16 Mae'r dalgylch i lawr yr afon o ble mae'r cyrsiau dŵr yn mynd drwy geuffosydd yn uno wrth gyffordd Gas Lane a Llys Derwen yn ymestyn dros tua 9.19 cilometr sgwâr. Mae Ffigur 16 yn dangos y dalgylch bras wedi'i gynhyrchu gan feddalwedd Scalgo.




**Ffigur18 – Dalgylch sy'n Cyfrannu at Gwrs Dŵr Lôn yr Orsaf**
(ffynhonnell: SCALGO)

**Asedau Draenio**

3.17 Cafwyd cofnodion carthffosydd cyhoeddus gan Dŵr Cymru. Mae'r cofnodion carthffosydd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r Wyddgrug yn cael ei gwasanaethu gan system ddraenio carthffosydd gyfun, gan gynnwys ardaloedd Fir Grove, Park Avenue, Ffordd Gwernaffield, Clayton Road, Nant Garmon, Y Coetir, Stryd Newydd, Ffordd Rhuthun, Brook Street, Ffordd Wrecsam, Conway Street, Cunliffe Street. Mae gwahanol ffyrdd yn cael eu gwasanaethu gan garthffosydd dŵr wyneb a dŵr budr ar wahân, gan gynnwys ardaloedd Maes y March, Ash Grove, Cae Bracty a Lôn yr Orsaf. Dangosir bod y gwahanol garthffosydd dŵr wyneb yn cysylltu â chyrsiau dŵr heb eu henwi ar draws yr Wyddgrug, gan gynnwys Maes y March ac Ash Grove yn NGR: 323161, 364787, Cae Bracty yn NGR: 323678, 363597 a Lôn yr Orsaf yn NGR: 324236, 363704, NGR: 324268, 363638 a NGR: 324312, 363568. Mae cofnodion Dŵr Cymru wedi'u cynnwys yn Atodiad D.


**Mapiau Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru**

3.18 Mae 'Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio – Afonydd a'r Môr' Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi'r risg o lifogydd sy'n gysylltiedig â'r brif afon a'r môr. Mae map Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos tir ym Mharthau Llifogydd 2 a 3. Diffinnir Parth Llifogydd 2 fel ardal gyda rhwng 0.1% ac 1% o gyfle llifogydd o afonydd a / neu'r môr mewn unrhyw flwyddyn, gan gynnwys effeithiau newid hinsawdd. Diffinnir Parth Llifogydd 3 yn ardal â mwy na 1% o gyfle llifogydd mewn unrhyw flwyddyn, gan gynnwys effeithiau newid hinsawdd.

3.19 Yn ôl 'Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio – Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach' Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'r perygl llifogydd a ddangosir yn gysylltiedig â chyrsiau dŵr bach ar draws yr Wyddgrug yn seiliedig ar gyfuniad o ddŵr glaw a data LiDAR. Mae'r map yn dangos ardaloedd lle gallai dŵr wyneb lifo neu gronni pan mae'n glawio'n drwm. Gellir dod o hyd i fap LiDAR ar gyfer cyd-destun y tir o gwmpas yr Wyddgrug yn Atodiad C. Unwaith eto, mae llawer o ardaloedd ledled yr Wyddgrug o fewn Parth Llifogydd 2 a 3 o gyrsiau dŵr bach a/neu ddŵr wyneb.

3.20 Mae rhagor o Fapiau Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gael yn Atodiad E.

3.21 Mae Map Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Cynllunio – Afonydd, Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach a ddangosir yn Ffigur 19 yn nodi'r risg llifogydd sy'n gysylltiedig ag afonydd a chyrsiau dŵr bach ar draws yr Wyddgrug.




**Ffigur 19 - Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio – Afonydd, Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach Cyfoeth Naturiol Cymru**

Yn cynnwys Data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2020) Yn cynnwys Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawliau Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl.

### Fir Grove, Park Avenue a Ffordd Gwernaffield

3.22 Mae Ffigur 20 yn dangos graddfa'r llifogydd ar gyfer afonydd, y môr, dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach yn Fir Grove a Park Avenue. Dangosir tir i'r gorllewin o Fir Grove a mannau isel topograffig ar hyd Park Avenue ym mharthau llifogydd dŵr wyneb 2 a 3.





**Ffigur 20 - Map Risg Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru o Afonydd, Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach yn Fir Grove, Park Avenue a Ffordd Gwernaffield**

Yn cynnwys Data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2020) Yn cynnwys Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawliau Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl.

**Maes y March, Ash Grove, Clayton Road, Nant Garmon a’r Coetir**

3.23 Mae Ffigur 21 yn dangos maint y llifogydd o amgylch Maes y March, Ash Grove, Heol Clayton, Nant y Garmon a'r Coetir. Mae sawl ffordd ac eiddo mewn ardaloedd sy’n wynebu risg o lifogydd yn gysylltiedig â'r cwrs dŵr drwy geuffos.





**Ffigur 21 - Map Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Cynllunio - Afonydd, Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach ym Maes y March, Ash Grove, Clayton Road, Nant Garmon a'r Coetir**

Yn cynnwys Data’r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2020) Yn cynnwys Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawliau Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl.

**Stryd Newydd a Ffordd Rhuthun**

3.24 Fel y dangosir yn Ffigur 22, mae map Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos ardal fawr o ddŵr wyneb yn cronni i'r gogledd o Stryd Newydd a Ffordd Rhuthun. Mae llwybrau llif y llifogydd i'r gogledd-orllewin o Ffordd Rhuthun yn gysylltiedig â'r cwrs dŵr drwy geuffos. Mae'r dŵr yn llifo tua'r de-ddwyrain tuag at Gae Bracty.





**Ffigur 22 - Map Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Cynllunio – Afonydd, Môr, Dŵr Wyneb a Map Cyrsiau Dŵr Bach yn Stryd Newydd a Ffordd Rhuthun**

Yn cynnwys Data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2020) Yn cynnwys Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawliau Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl.

**Cae Bracty**

3.25 Fel y dangosir yn Ffigur 23, mae llwybr llif dŵr wyneb sy'n gysylltiedig â'r cwrs dŵr drwy geuffos yn croesi trwy Gae Bracty. Mae Cae Bracty wedi'i leoli mewn man isel topograffig ar wahân ac mae dŵr llifogydd yn cronni yno (fel y'i cynrychiolir gan Barth Llifogydd 3).





**Ffigur 23 - Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio – Afonydd, Môr, Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghae Bracty**

Yn cynnwys Data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron (2020) Yn cynnwys Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a Hawliau Cronfa Ddata. Cedwir pob hawl.

